# Cofnodion cryno - Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

**a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 23 Ionawr 2025

Amser: 09.30 - 13.29

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/14787

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Andrew RT Davies AS (Cadeirydd)<br>Hefin David AS<br>Luke Fletcher AS<br>Samuel Kurtz AS<br>Jenny Rathbone AS |
| Tystion: | Harriet Barnes, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru<br>Nerys Bourne, Gyrfa Cymru<br>Jamie Cater, Make UK<br>Rhian Edwards, Medr (Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil)<br>Amie Field, Gyrfa Cymru<br>Sharron Lusher, Coleg Sir Benfro<br>Lisa Mytton, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru<br>Grant Santos, Educ8 |

| | |
|---|---|
| | Dr Barry Walters, Colegau Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Robert Donovan (Clerc)<br>Nicole Haylor-Mott (Dirprwy Glerc)<br>Lucy Morgan (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Hannah Blythyn AS.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Nododd y Pwyllgor y papurau.

**2.1 Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Data (Defnydd a Mynediad)**

## 3 Llwybrau prentisiaeth - Panel 1 - Trosolwg Strategol

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Rhian Edwards (Medr), Harriet Barnes (Medr), a Sharron Lusher (Cyn Gadeirydd, Bwrdd Adolygu Cymwysterau Galwedigaethol).

## 4 Llwybrau prentisiaeth - Panel 2 - Colegau a Darparwyr Prentisiaethau

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Dr Barry Walters (Coleg Sir Benfro a Cholegau Cymru), Lisa Mytton (Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru), a Grant Santos (Grŵp Hyfforddi Educ8).

## 5 Llwybrau prentisiaeth - Panel 3 - Gwybodaeth am Brentisiaethau

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Nerys Bourne (Gyrfa Cymru), Amie Field (Gyrfa Cymru), a Jamie Cater (Make UK).

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

6.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

## 7 Llwybrau prentisiaeth: Trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law o dan Eitemau 3, 4 a 5.

7.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at dri rhanddeiliad dethol i gael rhagor o wybodaeth, ar ôl trafod pynciau a godwyd yn ystod y sesiwn dystiolaeth.

## 8 Economi werdd - Trafod yr adroddiad drafft

8.1 Cytunodd y Pwyllgor i ohirio ystyried yr adroddiad drafft tan ei gyfarfod nesaf, er mwyn caniatáu rhagor o amser i drafod yr adroddiad yn llawn.

## 9 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 - Trafod yr adroddiad drafft

9.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft, ac, ar ôl awgrymu un newid, penderfynodd gytuno ar yr adroddiad terfynol drwy ohebiaeth.

## 10 Adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE - Briff

10.1 Trafododd y Pwyllgor y dull rapporteur traws-bwyllgor a argymhellir ar gyfer y gwaith ar yr Adolygiad o weithrediad y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a’r UE, a chytunodd i symud ymlaen gyda'r camau nesaf a awgrymir.

## 11 Difrod a Chau Porthladd Caergybi yn Dilyn Storm: trafod y papur cwmpasu

11.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y papur cwmpasu, ac awgrymodd gynnwys un tyst arall yn ystod y sesiwn dystiolaeth lafar arfaethedig.